## 3. GWAITH YMCHWIL

3.1 Wrth osod lefel cyfredol y Premiwm, gofynnodd y Cyngor llawn am waith ymchwil er mwyn dadansoddi'r effaith yr oedd y Premiwm yn ei gael ar gymunedau Gwynedd.

3.2 Mae canlyniad y gwaith ymchwil hwn yn ymddangos yn yr adroddiad a geir yn Atodiad 3, gyda'r crynodeb gweithredol fel a ganlyn.

**Pwrpas a sgôp yr ymchwil**

3.3 Bwriad yr ymchwil yma oedd casglu tystiolaeth am effaith y ddau gynnydd diweddaraf yn lefel y premiwm treth gyngor yng Ngwynedd (i 100% ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn Ebrill 2021, ac i 150% ar gyfer ail gartrefi yn Ebrill 2023) gan amcanu at ateb y cwestiynau canlynol:

- Ydi cynyddu'r premiwm wedi arwain at lai o ail gartrefi yng Ngwynedd?
- Beth ddigwyddodd i'r eiddo oedd gynt yn ail gartrefi – h.y. ydyn nhw wedi mynd o dalu'r dreth gyngor efo premiwm (ail gartref), i dalu treth gyngor sylfaenol (prif gartref), neu i'r gyfundrefn treth fusnes (llety gwyliau), neu unrhyw gategori arall
- Beth ydym yn ei wybod am y bobl sy'n byw mewn tai oedd yn ail gartrefi ond sydd bellach yn brif gartref? Oedd hyn yn gysylltiedig â gwerthiant y tŷ yr un adeg, neu newid defnydd o dan yr un berchnogaeth?
- Ydi'r cynnydd premiwm wedi arwain at ddod â thai gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd?

3.4 Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar ddefnydd eiddo gan ganolbwyntio ar dair gwahanol elfen, sef:

- Dadansoddi manylion categorïau eiddo yn y system dreth cyngor (tai yn newid i / o fod yn ail gartref neu yn wag hirdymor).
- Edrych ar y cyswllt rhwng newid categorïau eiddo yn y gyfundrefn dreth cyngor a gwerthiant tai.
- Casglu gwybodaeth bellach am eiddo sydd wedi newid o ail gartref i brif gartref, drwy holiadur i'r deiliaid presennol.

**Dadansoddi symudiadau categori yn y gyfundrefn dreth gyngor**

3.5 Roedd yr elfen yma yn golygu dadansoddi manylion categorïau yr holl eiddo yn y sir o fewn y system dreth gyngor ar wahanol ddyddiadau rhwng Hydref 2019 ac Ebrill 2024, gan edrych yn benodol ar dai yn newid i / o fod yn ail gartref neu yn wag hirdymor, ac unrhyw batrymau gwahanol yn hyn oddeutu adeg cynnydd yn y premiwm.

## Gwybodaeth bellach am eiddo newidiodd o ail gartref i brif gartref

3.13 Gyrrwyd holiadur i dros 900 cyfeiriad a newidiodd statws o ail gartref i brif breswylfa (yn y data treth gyngor) ers Rhagfyr 2022 (sef pryd dechreuodd llif o ail gartrefi i brif breswylfeydd). Cafwyd cyfradd ymateb o 20%.

3.14 O'r rhai oedd wedi nodi eu bod yn berchen ar y tŷ, roedd 64% wedi prynu'r tŷ er mwyn byw ynddo yn barhaol (erioed wedi bod yn ail gartref iddynt), a 28% bellach yn byw yn barhaol mewn tŷ oedd yn arfer bod yn ail gartref iddynt.

3.15 Roedd mwyafrif (71%) y rhai symudodd i dŷ oedd yn ail gartref iddyn nhw, heb fyw yng Ngwynedd o'r blaen. O'r rhai oedd wedi prynu'r tŷ i fyw ynddo'n barhaol, roedd tua'u hanner (52%) heb fyw yng Ngwynedd o'r blaen, ond tua'u traean (35%) wedi byw yng Ngwynedd ers 5 mlynedd neu fwy.

3.16 O'r eiddo lle cafwyd ymateb i'r holiadur, roedd oedolyn / oedolion yn siarad Cymraeg yn 39% o'r tai brynwyd i fyw ynddynt yn barhaol. Mae hyn yn cymharu â 26% lle roedd perchnogion wedi symud i dai oedd eisoes yn ail gartrefi iddyn nhw.

## Ystyriaethau eraill

3.17 Mae modd rhannu'r data i ardaloedd llai yn ôl yr angen, ac fe gynhwysir rai canlyniadau am wardiau unigol Abersoch gyda Llanengan, ac Aberdyfi, yn yr adroddiad llawn.

3.18 I'r dyfodol fe ellid edrych ar ffynonellau pellach o wybodaeth, i edrych ar agweddau posibl eraill o effaith cynyddu'r premiwm. Byddai modd trafod hefyd, efallai, y potensial ar gyfer casglu data ychwanegol i bwrpas ymchwil wrth weinyddu'r dreth, os am barhau i fonitro'r tueddiadau yma.

